Senedd Cymru
**Ymgysylltu â dinasyddion**

# Craffu ar Covid-19 a'i effaith ar blant a phobl ifanc yng Nghymru

## Crynodeb 3

Hydref 2020

Ym mis Ebrill 2020, aeth y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ati i archwilio sut mae'r pandemig Covid-19 wedi effeithio ar bob agwedd ar fywydau plant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r ymchwiliad yn parhau ac mae'r Pwyllgor yn awyddus i glywed gan bawb sydd wedi cael eu heffeithio. Mae hyn yn cynnwys plant a phobl ifanc a phobl sy'n ymwneud â chefnogi plant a phobl ifanc ar draws sectorau, gan gynnwys addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a gwaith ieuenctid, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

Mae'r crynodeb hwn yn cynnwys barn pobl ifanc a gyflwynwyd trwy; sefydliadau partner allweddol a gynhaliodd gyfweliadau â phobl ifanc; negeseuon e-bost a anfonwyd yn uniongyrchol at y Pwyllgor a; thaflenni gwaith papur a ddosbarthwyd trwy sefydliadau partner allweddol ac a ddychwelwyd trwy rhadbost at dîm ymgysylltu â dinasyddion y Senedd.

Mae sicrhau bod lleisiau pobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig yn rhan flaenllaw o'r gwaith craffu yn bwysig i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Er mwyn ategu hyn, mae'r tîm ymgysylltu â dinasyddion wedi canolbwyntio ar sut i ymgysylltu â chynulleidfaoedd penodol y gellid ystyried eu bod yn dod o gefndiroedd difreintiedig. Roedd y dull ymgysylltu yn cynnwys gweithio'n agos gyda sefydliadau partner allweddol sy'n cyfathrebu â phobl ifanc yn rheolaidd. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o sefydliadau y bu'r tîm ymgysylltu â dinasyddion yn gweithio gyda nhw ar gyfer y gwaith ymgysylltu hwn. Trwy gynnig arweiniad ac anogaeth i'r sefydliadau hyn, maent wedi galluogi cynnwys profiadau gwerthfawr yn uniongyrchol gan bobl ifanc yn yr ymchwiliad a dwyn y rhain i sylw'r Pwyllgor.

At hynny, trwy addasu'r dull cwestiynu a ddefnyddiwyd yn y brif alwad am safbwyntiau, lle roedd modd i bobl ifanc anfon neges e-bost yn uniongyrchol at y Pwyllgor, crëwyd taflen waith bapur ar gyfer pobl ifanc a allai fod angen llwybr nad yw'n ddigidol i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Dosbarthwyd y daflen hon gyda chefnogaeth y sefydliadau partner allweddol a'r banciau bwyd. Yn y crynodeb hwn, gallwch weld delweddau o'r arolwg papur a ysgrifennwyd gan y bobl ifanc a gymerodd ran.

Dyma'r trydydd crynodeb, sef y crynodeb olaf, a fydd yn cael ei ddatblygu fel rhan o'r gwaith ymgysylltu hwn. Crëwyd sawl crynodeb i'n galluogi i adrodd yn barhaus yn ystod sefyllfa sy'n newid yn gyson i ddinasyddion ifanc Cymru. Gallwch ddarllen **crynodeb 1** a **chrynodeb 2** yma trwy glicio ar y lincs.

Nod y crynodeb hwn yw dod â'r themâu allweddol sy'n codi a allai fod yn berthnasol i waith y Pwyllgor i ben - er y gellir archwilio dulliau eraill yn y dyfodol os bydd angen.

Dewiswyd y themâu a'r dyfyniadau yn y crynodeb hwn ar y sail eu bod yn themâu sy'n codi dro ar ôl tro ac yn berthnasol i'r sefyllfa bresennol. Lle bo'n bosibl ac yn briodol, dewiswyd dyfyniadau i roi cyd-destun.


## Sampl data

Mae’r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ymatebion gan 51 o bobl ifanc o bob rhan o Gymru. Y flaenoriaeth oedd cael gwybodaeth ansoddol am brofiadau pobl ifanc yn ystod pandemig y coronafeirws. Byddai hyn yn arwain at ddealltwriaeth fanylach o'r materion y gallai pobl ifanc fod wedi dod ar eu traws. Mae Atodiad 2 yn dangos y cwestiynau a ofynnwyd i'r cyfranogwyr. Y bwriad oedd peidio â chymharu profiadau yn ôl oedran neu leoliad y cyfranogwyr. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau ein bod yn cael barn genedlaethol o nifer o oedrannau, roedd pobl ifanc yn gallu dewis a fyddent yn rhannu eu lleoliad bras a'u hoedran ai peidio. Felly mae'r sampl hon o ddata yn adlewyrchu'r wybodaeth a gawsom ac nid yw'n rhoi’r darlun llawn o ran demograffeg y cyfranogwr.

Defnyddiwyd amrywiaeth o ddulliau i gael y wybodaeth hon gan fod angen addasu'r broses ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd.

| Dull | Nifer y cyfranogwyr |
|---|---|
| Taflenni papur | 26 |
| Drwy sefydliad partner allweddol | 15 |
| Drwy e-bost at y Pwyllgor | 10 |
| Cyfanswm | 51 |

| Ystod oedran | Nifer y cyfranogwyr |
|---|---|
| 0-3 oed | 1 |
| 4-10 oed | 7 |
| 11-16 oed | 23 |
| 17-25 oed | 8 |
| Dim ymateb | 12 |
| Cyfanswm: | 51 |




Mae pob pin ar y map yn cynrychioli lleoliad lle gwnaeth o leiaf un person ifanc gymryd rhan. Ni ddatgelodd 17/51 o gyfranogwyr eu lleoliad. Gall set fwy manwl o ddata fod ar gael ar eich cais.

## Y prif themâu:

Mae'r sylwadau a gasglwyd yn ystod y gwaith ymgysylltu hwn wedi bod yn gadarnhaol yn ogystal â negyddol. Y themâu cyffredinol a gododd yn y crynodeb olaf hwn oedd; Iechyd Meddwl a Llesiant; Gwrando; ac Addysg a Chyflogaeth.

**Iechyd Meddwl a Llesiant;**




Llun: Person 17 oed, Sir y Fflint

Yn gyffredinol, mynegodd pobl ifanc eu bod yn teimlo’n fwy pryderus, a gellir dehongli hyn fel rhywbeth nodweddiadol o ystyried faint o newid y mae'r genedl gyfan wedi'i brofi i’w bywydau

bob dydd. Roedd llawer o bobl ifanc wedi canolbwyntio ar y dyfodol a'r hyn a allai ddigwydd yn eu hatebion, ac maent yn teimlo rhywfaint o ansicrwydd am hyn::

> "Mae'r syniad o fynd yn ôl i 'normal' yn fy mhoeni oherwydd na fydda i nag unrhyw un arall ym mlwyddyn 13 yn medru mynd yn ôl i'n normalrwydd ni o fynd i'r ysgol. Mae llawer o ansicrwydd pryd y bydd y cyfnod hwn yn dod i ben, ac rydw i'n bryderus o'r ffaith ein bod wedi gadael yr ysgol heb gael ein paratoi am y byd tu hwnt yn iawn." - Person ifanc (e-bost)
>
> "Yn y mis diwethaf, mae fy hwyliau bob dydd wedi bod ar ei waethaf. Dydw i ddim yn cysgu oherwydd fy mod yn symud [tŷ], fy arholiadau TGAU, poeni am Covid-19. Ar hyn o bryd, dydw i ddim yn credu y byddaf yn gallu mynd i'r ysgol a nawr dw i o dan gymaint o straen oherwydd efallai y bydd yn rhaid i fi deithio ar y bws, a dydw i wir ddim yn meddwl y byddaf yn gallu. Mae fy nhrefn ddyddiol yn wael iawn, dw i ddim yn cysgu ac mae hyn yn fy ngwneud yn flinedig iawn yn y dydd." - Ceisiwr lloches ifanc

Fodd bynnag, mae llawer wedi bachu ar y cyfle i roi cynnig ar bethau newydd, adeiladu ar gysylltiadau neu ddod o hyd i ffyrdd o ymdopi:


> "Ar ddechrau'r pandemig, ro'n i'n nerfus ac yn teimlo o dan straen. Nawr rydw i wedi ymlacio ac yn ddigynnwrf. Rwy'n siarad â fy nheulu" - Person ifanc
>
> "Mae'n dda bod gartref yn fwy aml, a gweld mwy ar fy mam a fy chwaer a fy nghi a fy nhad pan mae'n dod adref o'r gwaith. Mae wedi helpu i wella ein perthynas" - Person ifanc (e-bost)
>
> "Rwy'n dysgu sgiliau newydd fel garddio." - Person ifanc (e-bost)
>
> "Rwy'n teimlo'n isel ac yn bryderus. Rwy'n cael help gyda hyn" - Plentyn 10 oed, Merthyr Tudful

Hefyd, cafwyd sylwadau gan sefydliadau partner allweddol sydd mewn sefyllfa i gael darlun cyfannol o farn pobl ifanc y maent yn gweithio gyda nhw, yn enwedig y rhai o gefndiroedd heriol:

> "Dywedodd 60 y cant o'r plant mewn gofal a phob ymadawr gofal a gymerodd rhan yn yr arolwg eu bod yn teimlo'n unig yn amlach yn ystod y cyfnod clo. Yn yr un modd, dywedodd 57 y cant o'r plant mewn gofal a phob ymadawr gofal a gymerodd rhan yn yr arolwg eu bod yn teimlo'n fwy pryderus. Er bod y data yn ein harolwg yn rhoi cipolwg, rydym yn clywed y

pryderon hyn yn aml yn ein gwasanaethau eraill a'n gwaith cymorth" - Ymateb sefydliad partner allweddol

**Gwrando:**




Llun: Person 14 oed, Casnewydd

Er mwyn archwilio safbwynt pobl ifanc ar eu hawl i ddweud eu barn am beth ddylai ddigwydd a bod pobl yn gwrando arnynt (Erthygl 12 yn yr UNCRC), gofynnwyd i bobl ifanc am lefel y cymorth yr oeddent yn ei gael yn ystod y pandemig o'i chymharu â chynt. Gofynnwyd iddyn nhw hefyd a oeddent yn teimlo eu bod yn gallu rheoli'r gefnogaeth hon ac arfer eu hawliau.

Roedd y safbwyntiau'n gymysg, gyda rhai unigolion yn gorfod goresgyn heriau mawr tra bod eraill yn gallu parhau fel o'r blaen:

"Mae cymaint o bethau wedi digwydd yn ddiweddar ac mae'n llanast mewn gwirionedd. Fe wnaethon ni symud o un rhan o Gaerdydd i'r llall gan fod y landlord eisiau'r tŷ yn ôl. Digwyddodd hyn ddechrau mis Awst. Dyw ein tŷ ni nawr ddim yn addas. Rydw i wedi cwyno ond does dim wedi digwydd. Mae'r ysgol ymhellach i ffwrdd nawr a dydw i ddim yn hapus i fynd ar y bws gan fod fy chwaer yn agored i niwed." - Ceisiwr lloches ifanc

"Mae rhywun yn y Fforwm Ieuenctid yn gwrando arnaf ac mae fy rhieni'n gwrando arnaf ond dydw i ddim yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando" - Person ifanc (e-bost)


"Rwy'n cael cefnogaeth gan fy mam ac mae hi'n fy annog i gadw'n bositif" - Person 17 oed, Sir y Fflint

"Mae pawb yn gwrando arna i, mae mam (fy ngofalwr maeth) bob amser yn gofyn sut rydw i'n teimlo am fynd yn ôl i'r ysgol, ac mae mam yn fy helpu os oes angen help arna i" - Person 12 oed, Rhondda Cynon Taf

"Mae'r Tîm Cydnerthu wedi bod yn wych gyda'u cefnogaeth [...] ac mae fy rhieni wedi bod yn gefnogol iawn drwyddi draw. Pan rydw i wedi bod yn teimlo'n fwy pryderus ar brydiau, maen nhw wedi bod yno i mi." - Person ifanc

"Dwi'n credu bod Llywodraeth Cymru wedi paratoi'n well na Llywodraeth y DU o ran gwrando ar bobl ifanc a phobl Cymru." - Person ifanc (e-bost)

**Addysg a chyflogaeth:**




Llun: Person 15 oed, Merthyr Tydfil

Roedd cyffro ymysg llawer o gyfranogwyr ynghylch ailagor yr ysgolion. Er hynny, roedd pryderon gan rai pobl ifanc, yn enwedig os oeddent mewn sefyllfa lle gallai dychwelyd i'r ysgol olygu eu bod yn peryglu aelodau eraill o'r teulu:

"Rwy'n teimlo'n hapus ac yn gyffrous oherwydd bod fy ysgol yn agor yn fuan" - Person 12 oed, Merthyr Tudful

"Dwi'n gweld eisiau'r ysgol oherwydd dydw i ddim yn cael gweld fy ffrindiau mwyach. Mae'n anodd gwneud gwaith ysgol gartref ac rwy'n teimlo nad ydw i'n dysgu" - Person 13 oed o Ferthyr Tudful

O ran y gefnogaeth gan ysgolion, roedd yn ymddangos bod myfyrwyr yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt yn colli allan ar hyn mewn rhai achosion. Roedd yr oedi hwn yn y gefnogaeth yn effeithio ar eu cynnydd a'u hyder y byddant yn gallu cadw i fyny â'u cyfoedion:

> ""Helo, fy enw i yw XXXXXX dwi'n 11 oed ac mae nam difrifol ar fy ngolwg. Rwy'n defnyddio Connect 12 Humanware yn yr ysgol a dwi wrth fy modd â hwn, ac mae'n gwneud fy mywyd yn yr ysgol yn haws. Dwi eisiau bod fel fy ffrindiau a gwneud fy ngorau glas. Rwyf wedi gorfod ymdopi heb fy offer yn ystod y pandemig oherwydd dydw i ddim yn cael ei ddefnyddio gartref. Mae'r gwaith ysgol wedi bod yn anodd. Rydw i'n teimlo'n rhwystredig ac eisiau rhoi'r ffidil yn y to. Rwy'n poeni am syrthio tu ôl i bawb arall ac yn poeni fydda i ddim yn gallu gwneud y gwaith pan fyddaf yn dechrau yn yr ysgol uwchradd ym mis Medi. Plis helpwch bobl fel fi i allu gwneud fy ngwaith gartref mor hawdd ag yr wyf yn yr ysgol. Mae gen i flynyddoedd anodd pwysig o fy mlaen ac rydw i eisiau gwneud fy ngorau glas i brofi i mi fy hun mod i'n gallu. Ni ddylai unrhyw un orfod dioddef, rwy'n haeddu cael addysg fel pawb arall" - Person 11 oed (e-bost)
>
> "Does dim angen help ychwanegol ar fy mrawd bach a fi yn yr ysgol; mae angen help ar fy mrawd mawr (blwyddyn 7) ond does neb i roi help un i un gartref, dim ond mam sy'n ein helpu ni i gyd" - plentyn 7 oed (e-bost)

Esboniodd llawer o bobl ifanc nad addysgu rhithwir oedd eu hoff ffordd o ddysgu:

> "Mae'r ysgol ar-lein yn llawer mwy dryslyd i mi oherwydd dydi fy athrawes ddim yn gallu egluro pethau cystal â chynt..." - Person 11 oed o Ferthyr Tudful
>
> "Rwy'n gweld eisiau addysg wyneb yn wyneb a chael ymateb yn syth ar ôl gofyn cwestiwn. Mae'n wahanol iawn nawr gan fod angen anfon neges e-bost ac mae'r atebion yn gallu cymryd dyddiau, sy'n golygu nad ydych yn gallu gorffen y gwaith. Rwy'n gohirio pethau ac yn dod o hyd i bethau eraill i'w gwneud "- Person ifanc (e-bost)

Gan nad yw cyflogaeth yn elfen allweddol o waith y Pwyllgor, roedd y cwestiynau yn canolbwyntio ar ddeall barn y cyfranogwyr am eu haddysg. Fodd bynnag, pan wahoddwyd hwy i roi eu barn am unrhyw beth arall yr oeddent am ei rannu, ar adegau, soniwyd yn fyr am gyflogaeth a chodwyd ymholiadau am eu gwytnwch:

> "Rydw i wedi colli fy swydd. Rydw i'n teimlo y gallai fod mwy o help ar gael oherwydd hyn" - Person 21 oed o Sir y Fflint

Yn olaf, rhannodd pobl ifanc eu teimladau am arholiadau, gan fynegi barn benodol am yr annhegwch yr oeddent yn teimlo a allai fod wedi digwydd:

"Mae gen i deimladau cymysg iawn am beidio a chwblhau fy arholiadau Lefel A. Teimlaf fy mod ar fy ngholled oherwydd nad ydw i wedi cael gorffen fy nghyrsiau, yr oeddwn yn eu mwynhau'n fawr, na chael y cyfle i brofi fy hun yn yr arholiadau. Rydw i felly, wrth reswm, yn poeni'n sylweddol am fy nghanlyniadau. Ar y naill law, os y caf ganlyniadau da iawn, rydw i'n poeni na fydd prifysgolion neu ddarpar-gyflogwyr yn ymddiried yn y canlyniadau hynny, ond ar y law arall, os y caf ganlyniadau nad ydw i'n hapus â nhw, rwy'n poeni y byddaf yn ei chael hi'n anodd delio â'r ffaith na chefais i'r cyfle i gael canlyniadau gwell." - Person ifanc (e-bost)

"Doedd fy arholiadau ddim yn deg, collais flwyddyn o ysgol oherwydd fy mod i'n sâl ond yna des i yn ôl a chefais A ac A* yn fy arholiadau ffug. Fodd bynnag, fy ngradd terfynol oedd B. Rwy'n ceisio cysylltu â'r ysgol ond y cyfan rydw i wedi'i glywed yw y bydd yn rhaid i mi ail-sefyll wrth astudio ar gyfer fy Lefel A, ac rwy'n poeni y bydd hyn yn achosi gormod o straen. Wnes i ddim methu a dwi'n gwybod y galla i fynd i astudio'r hyn rydw i eisiau nesaf ond roeddwn i'n gwybod y gallwn fod wedi cael gradd uwch a dydw i ddim wedi cael cyfle." - Ceisiwr lloches ifanc

# Atodiad 1

Casglodd y sefydliadau partner allweddol a ganlyn ymatebion naill ai drwy ddosbarthu taflenni papur neu gyfweld â phobl ifanc a rhannu eu barn:

- Gweithredu dros Blant
- Fforwm Ieuenctid Caerffili
- Grŵp Gweithredu Tlodi Plant
- CWVYS
- Alltudion ar Waith - D.P.I.A
- Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig & Ieuenctid Cymru (EYST Cymru)

- Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (Cangen Casnewydd a Changen Sir y Fflint)
- Flintshire County Council | Cyngor Sir y Fflint
- Darpariaeth Ieuenctid Integredig Sir y Fflint
- GAVO
- Banc Bwyd Knighton Powys
- Llamau
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
- Y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol
- NSPCC
- PATCH - Gweithredu Sir Benfro yn Erbyn Caledi
- People Plus
- Race Council Cymru
- Byddin yr Iachawdwriaeth y Drenewydd
- Ymddiriedolaeth Stephen and George
- TAG Youth
- TCC (Trefnu Cymunedol Cymru / Together Creating Communities)
- The Kings Storehouse Rhyl
- Tros Gynnal
- Ymddiriedolaeth Trussell - Banc Bwyd y Fro (Y Barri)
- Hwb Cymunedol Twynyrodyn
- Cyngor Ffoaduriaid Cymru
- Youth Cymru

- Ysgol David Hughes, Porthaethwy

# Atodiad 2

Dyma'r cwestiynau a ofynnwyd yn y taflenni papur:

1. Addysg: Beth wyt ti'n gweld ei eisiau fwyaf am yr ysgol neu'r ganolfan ddysgu? Os wyt ti'n dal i fynd i'r ysgol, sut mae'n wahanol i'r ffordd yr oedd o'r blaen? Sut brofiad yw bod gartref yn fwy aml ac a wyt ti'n dal i allu gwneud dy waith ysgol?
2. Teimladau: Sut wyt ti'n teimlo? Wyt ti wedi blino, yn teimlo'n ofnus, yn poeni neu'n ddryslyd? Yn hapus, yn hamddenol neu'n ddigynnwrf? Gyda phwy wyt ti'n siarad am y teimladau hyn? Wyt ti'n gwneud ymarfer corff, fel y sesiynau gyda Joe Wicks? Wyt ti'n cael mynd y tu allan rhyw lawer?
3. Cefnogaeth: Wyt ti'n meddwl bod oedolion yn gwrando ar dy farn di a dy deimladau di ar hyn o bryd? Mae rhai ohonom ni yn cael help ychwanegol yn yr ysgol neu y tu allan i'r ysgol. Wyt ti'n dal i fod yn gallu cael yr help hwn nawr dy fod ti gartref?
4. Unrhyw beth arall: A oes unrhyw beth arall yr hoffet ti ei ddweud wrthym am dy brofiadau ers i'r coronafeirws newid pethau i bobl Cymru?